



GAIR Y BYWYD

Llythyr Bugeiliol i Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory

15ed o Fai 2021

Heddiw, mae'r Eglwys yng Nghymru'n dathlu Edmwnd Prys a gyhoeddodd, bedwar can mlynedd yn ôl yn 1621, ei gyfieithiad o Lyfr y Salmu i'r Gymraeg. Mae ei gyfieithiadau ar ffurf mydryddol, yr oedd pob siaradwr Cymraeg yn gallu eu dysgu'n rhwydd ar daforod leferydd a'u canu i emyn donau. Daeth gwaith Edmwnd Prys i sefyll gyda gwaith William Morgan a Richard Parry, y ddau'n Esgobion Llanelwy, a William Salesbury, pob un, gyda'u cariad at bobl Cymru a'u cred yng ngallu'r Ysgrythurau i ddod â bywyd tragwyddol, yn ymdrechu i ddod â'r Ysgrythurau'n fyw yn iaith eu mam i bawb allu eu darllen a'u deall.

Fel y gallwch ddychmygu, rydyn ni'n haeddiannol falch o'r aelodau yma o Deulu Asaph, a lwyddodd i wneud pethau mawr drwy gydweithio. Nhw osododd safon i'r Gymraeg sydd wedi parhau hyd at yr ugeinfed ganrif. Y mis hwn, dan arweiniad ein tîm Addysg ardderchog - tîm yr esgobaeth a thîm yr Eglwys Gadeiriol - rydyn ni wedi bod yn ymestyn allan i ddisgyblion ein hysgolion eglwysig i rannu'r teimlad priodol o gynnwrf ynghylch popeth y llwyddodd y cyfieithwyr i'w wneud. Gallwch hyd yn oed ganfod gwasanaeth dathlu a recordiwyd ar gyfer ein hysgolion Eglwysig ar y rhyngwryd ar You Tube: (<https://www.youtube.com/watch?v=ag7tmWiVtyw>)

Pam eu bod nhw mor angerddol ynghylch cyfieithu'r ysgrythurau i'r Gymraeg? Yn syml, oherwydd eu bod yn credu y byddai dod i gysylltiad â'r ysgrythurau yn dod â bywyd – bywyd yn ei lawnder, bywyd tragwyddol – bod y Beibl yn gallu addysgu'r enaid, nid yn unig mewn ffordd sy'n dod â llawnder i fywyd, ond hefyd am ei fod yn ein cyflwyno ni i Iesu ac yn adrodd stori iachawdwriaeth. Wrth ddarllen yr ysgrythurau, mae Duw i'w glywed yn dweud sut y mae eisiau i bobl fyw, ac mae hanes gwirioneddol dysgeidiaeth Iesu i'w glywed yno hefyd. Mae'n ffordd uniongyrchol, bersonol o glywed Gair Bywyd.

Pan oedd yr arweinwyr Iddewig yn cymryd y penderfyniad terfynol pa lyfrau a fyddai'n cael eu cynnwys ym Meibl Iddewiaeth, yr hyn y mae Cristnogion yn ei alw yr Hen Destament, neu, efallai yn well, y Testament Cyntaf, roedden nhw'n defnyddio maen prawf anhygoel o ryfedd: byddai gwir Ysgrythur, medden nhw yn "llygru'r dwylo". Roedd bron fel ystyried fod sancteiddrwydd yn gyfystyr ag ymbelydredd. I'r rabi, doedd hi ddim yn bosibl cyffwrdd â'r Beibl heb iddo adael ei ôl ar eich bodolaeth. Rwy'n amau fod y cyfieithwyr yn meddwl rhywbeth tebyg, bod darllen geiriau'r Beibl yn gadael rhywun yn agored i gael ei gyffwrdd gan rym tröedigaeth yr Ysbryd Glân. Pan fyddwn ni'n galw'r Beibl yn "Air Duw" dyma beth rydyn ni'n ei feddwl, fod yr Eglwys wedi cydnabod bod ôl yr Ysbryd Glân ar y llyfrau hyn, sêl bendith bersonol Duw ei hunan fel cofnod dilys o Air Duw i'r byd yn Iesu.

Mae yna ddarn yn yr ysgrythurau lle mae cyfran helaeth o'r disgyblion yn gadael Iesu ac mae'n troi at y Deuddeg a gofyn: A ydych chiwithau, hefyd, efallai am fy ngadael? Pedr sydd yn ateb: "Arglwydd, at bwy yr awn ni? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennynt ti." (Ioan 6.68). Mae llythyr, y dywedir iddo gael ei ysgrifennu gan Iago, brawd Iesu, yn cymharu darllen yr Ysgrythurau fel edrych ar ddrach a gweld sut ydych chi'n edrych mewn gwirionedd. Oni bai eich bod yn caniatáu iddo eich newid, meddai, mae fel mynd i ffwrdd ac anghofio ar unwaith bopeth rydych chi wedi'i weld. (Iago 1.24). Y mynediad uniongyrchol, ar amrant, hwn i'r neges y mae Duw eisiau i ni ei glywed yw beth oedd wedi'i addo i ni pan fyddwn ni'n agor ac yn darllen y Beibl o ddifrif ac yn ddeallus.

Y fath rodd y mae Duw wedi'i roi i ni yn y Beibl - mae'n siarad gydag awdurdod Iesu, mae fel pe bydden ni yno yn y dorf yn gwrando arno'n siarad. Ac eto, pa mor aml ydyn ni'n troi at (fel y dywed y Llyfr Gweddi: "i'w ddarllen, ei chwilio, ei ddysgu ac ymborthi arno") y Gair hwn sy'n dod â Bywyd?

